1. Cefndir i Weithio fel Consortiwm

Mae Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (swamwac) yn sefydliad llwyddiannus, effeithlon a chydweithiol a ffurfiwyd gan Awdurdodau Addysg Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys a Dinas a Sir Abertawe.

O fewn Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru mae 635 o ysgolion a gwasanaethau addysgu, sef 32% o ysgolion Cymru a 28% o'r disgyblion. Mae 48% o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac mae 52% o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg gyda Chymraeg fel ail iaith. Un o gryfderau'r Consortiwm yw'r cydbwysedd hwn rhwng ysgolion trefol a gwledig, ysgolion bach a mawr, ysgolion mewn ardaloedd cyfoethog ac ardaloedd sydd wedi'u hamddifadu'n gymdeithasol ac ysgolion Cymraeg a Saesneg.

Mae'r chwe awdurdod wedi cydweithio fel Consortiwm ers 2000. Dechreuodd yn fach am fod ei gylch gwaith yn gyfyngedig i nifer bach o feysydd, ond wrth i ganlyniadau cadarnhaol gwaith y consortiwm gael eu gwireddu, mae'r cylch gwaith wedi cael ei estyn. Cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol yn sgîl gwaith consortiwm mewn meysydd fel Asesiadau Trothwy athrawon, Rheoli Perfformiad athrawon a phenaethiaid, Ailfodelu'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'r holl awdurdodau o fewn y Consortiwm yn cydnabod manteision gwaith consortiwm ac maent i gyd yn ymroddedig i ddatblygu gwaith Consortiwm ymhellach.

Yn 2006, cyflwynodd y Consortiwm gais llwyddiannus am arian o Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio'r potensial i ddatblygu gwaith Consortiwm ymhellach. Mae'r grant a dderbyniwyd ynghyd â chyfraniadau pob un o'r chwe awdurdod, wedi ariannu'r Prosiect Creu'r Cysylltiadau sy'n ceisio datblygu model cynaliadwy, addas at y diben pellach ar gyfer cydweithio.

Ceir cyd-destun clir i waith y Consortiwm. Bydd angen i waith y consortiwm fod yn ymatebol i ddatblygiadau cyfredol a newydd, gan gynnwys yr amcanion a nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu; y gofyniad am Gynllun Sengl i Blant a Phobl Ifanc; Codi Safonau a Gwella Ysgolion; Ar Draws Ffiniau (Adroddiad Beecham); Creu'r Cysylltiadau; Cyflwyno Gwell Gwasanaethau i Gymru; a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion gan gynnwys yr Agenda Ddiwygio ar Dair Lefel.

Mae Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru wedi datblygu model newydd, trosglwyddadwy a strwythur llywodraethu ar gyfer gweithio fel consortiwm. Mae'r model hwn yn seiliedig ar egwyddor cydweithio agos (yn hytrach nag anfon gwaith allan yn fasnachol) i ymdrin â materion allweddol, noddi arloesedd a gwella effeithlonrwydd. Mae cyflawniadau'r consortiwm hyd yn hyn yn awgrymu y gallai ddarparu model ar gyfer cydweithio rhanbarthol a gwaith partneriaeth sy'n cyfateb i gymeriad unigryw Polisi Addysg Cymru, ac y gellid ei gymhwyso ar draws y wlad. Yn bwysicaf oll, ffocws y model yw gwella safonau a lles pob plentyn a pherson ifanc.

2. Gwaith y Consortiwm

Caiff y camau gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad eu cyflawni drwy waith y Consortiwm oherwydd ein bod yn cydnabod nad oes un ffordd o gydweithio sy'n addas i bob sefyllfa, ac mae'r continwwm yn darparu'r hyblygrwydd i sicrhau gweithio effeithiol ac effeithlon sy'n ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod. Rydym yn diffinio gwaith Consortiwm fel sefyllfa lle mae rhai gwasanaethau, neu'r gwasanaethau i gyd yn dod at ei gilydd mewn amrywiaeth o ffyrdd a lle mae pob awdurdod yn y Consortiwm yn cadw cyfrifoldeb am gyflwyno statudol a safonau'r gwasanaeth. Mae gwaith y Consortiwm wedi'i bennu a'i gefnogi gan y chwe awdurdod.

Egwyddorion Gwaith y Consortiwm

- Mae gwaith y Consortiwm wedi'i bennu gan y **chwe awdurdod**
- Trefniant gweithio ar y cyd yw **gwaith Consortiwm.** Gall gweithio ar y cyd **fod ar sawl ffurf** - o rwydweithio i integreiddio gwasanaethau'n llawn
- Mae gwaith y consortiwm yn ceisio ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod unigol
- Ceir **cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir**, sy'n un o gryfderau model gweithio'r Consortiwm
- Mae pob Awdurdod yn **cadw ei gyfrifoldebau** dros gyflwyno Statudol a safonau gwasanaeth

Continwwm gwaith consortiwm
Mae gwaith y Consortiwm wedi'i arwain gan fodel sy'n cynnwys ffurfiau gwahanol ar gydweithio, o rwydweithio i integreiddio llwyr sy'n cymhwyso

Deilliannau positif i Blant a Phobl Ifanc ←	Integreiddio Llawn	Dyma ble mae gwaith Consortiwm yn cyflwyno gwasanaeth ar y cyd ar draws yr awdurdodau sy'n cyfranogi. Mae'r awdurdodau'n cronni cyllidebau ac adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth
←	Cydweithio	Dyma ble mae'r awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd ar fentrau penodol, rhannu adnoddau a rhannu cyfrifoldebau, risgiau a gwobrau.
←	Cydweithredu	Dyma ble mae'r awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau, dileu rhwystrau a chynnig atebion
←	Cydlynu	Dyma ble mae'r awdurdodau'n alinio polisïau a gweithdrefnau, ac yn datblygu ymagweddau cyson.
←	Rhwydweithio	Dyma ble mae'r awdurdodau'n rhannu gwybodaeth, yn trafod ymagweddau ac yn nodi arfer gorau. Maent hefyd yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd proffesiynol cadarnhaol

3. Cynllun Strategol y Consortiwm 2008 – 2009

Mae pob awdurdod yn ymroddedig i ddatblygu gwaith consortiwm a fydd yn galluogi blaengaredd a mesurau effeithlonrwydd drwy rymuso staff ac awdurdodau i gydweithio ac i wneud pethau'n wahanol. Mae'r gwaith yn ymgymryd ag egwyddorion diwygio ar dair lefel, lle mae pawb dan sylw yn rhannu nod cyffredin, sef gwella canlyniadau i bobl ifanc.

Canlyniadau Allweddol
Llinyn 1
Datblygu'r gweithlu ar draws y Consortiwm; personél mewn ysgolion, personél mewn awdurdodau lleol a phersonél sy'n ymwneud â gwaith y Consortiwm drwy gyfleoedd datblygu proffesiynol a rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar godi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad yr holl blant a phobl ifanc
Llinyn 2
Darparu cyngor, cefnogaeth a her i ysgolion ac awdurdodau lleol mewn meysydd y cytunwyd arnynt i godi safonau, noddi arloesedd a sicrhau newidiadau sefydliadol
Llinyn 3
Sefydlu trefniadau llywodraethu, rheoli a sicrhau ansawdd cadarn ac effeithiol a chyflwyno amrywiaeth o ddatblygiadau allweddol er mwyn gwella safonau disgyblion, adeiladu galluedd ar draws Awdurdodau'r Consortiwm, a chyflawni effeithlonrwydd, trwy ddatblygu gwaith consortiwm arloesol, hyblyg ac ymatebol.

Mae Meysydd Gwaith y Consortiwm yn Cynnwys

Llinyn 1: Datblygu'r Gweithlu	**Llinyn 2: Cyngor, Cefnogaeth a Her**	**Llinyn 3: Llywodraethu a Datblygu Trefniadaethol**
1.1 Cronfa Ysgolion Gwell 1.2 Rhaglen Cyrsiau Byr ar y Cyd 1.3 Datblygiad Proffesiynol - Penaethiaid - Arweinwyr canol - Athrawon - Staff Cefnogi 1.4 Rheoli Perfformiad - Penaethiaid - Athrawon - Staff Cefnogi 1.5 Ailfodelu - Trawsnewidiol - Trafodaethol	2.1 Gwasanaethau Ymgynghorol 2.2 RHAGORI 2.3 Pontio 2.4 14 -19 2.5 Y Cyfnod Sylfaen 2.6 Cynhwysiad 2.7 Cefnogi Llywodraethwyr 2.8 Peilot y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	3.1 Strwythur Llywodraethu 3.2 Brocera 3.3 Gwella Ansawdd yn Barhaus 3.4 Tair Lefel 3.5 Perfformiad 3.6 Cyllid 3.7 Data a TGCh 3.8 Cynllunio Lleoedd Ysgol 3.9 Cynllunio ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 3.10 Datblygu Isadeiledd 3.11 Rhannu Gwaith Gweithredol 3.11.1 Cerddoriaeth 3.11.2 Addysg Awyr Agored 3.11.3 Cwricwlwm TGCh 3.11.4 Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned 3.11.5 Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol